

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a

Chyfathrebu

| | |
|-----------------------------------|--|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd | Adam Vaughan |
| Dyddiad: Dydd Iau, 26 Ionawr 2017 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 10.15 | 0300 200 6565 |
| | SeneddDGCh@cynulliad.cymru |

Rhag-gyfarfod anffurfiol (10:00 – 10:15)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Cyllid ar gyfer Addysg Cerddoriaeth a mynediad at yr addysg honno: Sesiwn dystiolaeth ragarweiniol 2

(10:15 – 11:15)

(Tudalennau 1 – 14)

Gareth Pierce, Prif Weithredwr, CBAC

Matthew Jones, Rheolwr CCIC (Cerddoriaeth Ieuenctid), Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

Pauline Crossley, Uwch Reolwr (Celfyddydau Ieuenctid), Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

3 Cyllid ar gyfer Addysg Cerddoriaeth a mynediad at yr addysg honno: Sesiwn dystiolaeth ragarweiniol 3

(11:15 – 12:15)

Karl Napieralla OBE, Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen blaenorol Llywodraeth Cymru ar Wasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru

Emma Coulthard, Pennaeth y Gwasanaeth Cerddoriaeth ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg.

Wayne Pedrick, Rheolwr, Cerdd NPT Music



4 Papur(au) i'w nodi

Llythyr at y Cadeirydd gan y Llywydd: Senedd@Casnewydd

(Tudalennau 15 – 16)

Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Cymru

Hanesyddol

(Tudalen 17)

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 6

6 Ôl-drafodaeth breifat

(12:15 – 12:30)

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Eitem 4.1

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/GH

13 Ionawr 2017

Annwyl Gadeirydd

Yn 2015, trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau allgymorth yn Wrecsam ac Abertawe, gyda'r nod o fynd â gwaith y Cynulliad at bobl Cymru. Y rheswm i ni ddewis Wrecsam ac Abertawe oedd oherwydd bod y niferoedd a bleidleisiodd yn y ddwy ardal yn arbennig o isel yn etholiad y Cynulliad yn 2011.

Fel rhan o fentrau Senedd@Wrecsam a Senedd@Abertawe, cyflwynodd staff raglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau, ymweliadau a gweithdai a lwyddodd i ymgysylltu â mwy na 5000 o bobl ynghylch gwaith y Cynulliad. Hefyd, llwyddwyd i feithrin cysylltiadau gwaith newydd â mudiadau lleol allweddol a'r cyfryngau, a roddodd sylw i'r digwyddiadau a gynhaliwyd.

Er mwyn cynnal y momentwm yn sgil ein hymweliadau â Wrecsam ac Abertawe, ac adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd, rwy'n awyddus i drefnu digwyddiad Senedd@ arall yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 20 Mawrth 2017. I barhau â'n taith o amgylch cymunedau Cymru, rydym wedi dewis Casnewydd fel lleoliad menter nesaf Senedd@.

Un o ganfyddiadau'r gwerthusiadau o fentrau blaenorol Senedd@ oedd yr angen i alluogi pwyllgorau i ystyried eu cyfraniad posibl yn gynnar yn y broses gynllunio. Felly, rwy'n gwahodd awgrymiadau gan eich pwyllgor ynghylch sut y gallwch gyfrannu at Senedd@Casnewydd.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403

Tudalen y pecyn 15



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Yn ystod mentrau blaenorol Senedd@, cynhaliodd pwyllgorau gyfarfodydd ffurfiol yn y gymuned, gan gymryd y cyfle i annog pobl i ymwneud â'u gwaith. Bydd Senedd@Casnewydd yn gyfle gwych i'ch pwyllgor godi ei broffil a meithrin perthynas waith newydd â llawer o fudiadau a chyfryngau lleol.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Geraint Huxtable ar 0300 200 6277 neu: Geraint.Huxtable@Cynulliad.Cymru.

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P-KS/0084/17

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

18 Ionawr 2017

Annwyl Bethan

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Ionawr 2017 ynglŷn â Cymru Hanesyddol.

Disgwyliaf dderbyn adroddiad y Grŵp Llywio erbyn diwedd mis Ionawr a threfnaf fod hwn ar gael ar ôl i mi gael cyfle i ystyried yr adroddiad yn llawn.

Byddaf, wrth gwrs, ar gael i ddod i gyfarfod y Pwyllgor fel y bo'n briodol.

Yn gywir

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.